Llythrennedd Carbon – astudiaeth achos

Mae Amgueddfa Cymru yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau sy'n adrodd hanes Cymru o gelf i hanes cymdeithasol.

Mae gennym hanes cyfoethog yn y gwyddorau naturiol ac mae ein tîm o wyddonwyr yn arbenigo ar sawl agwedd wahanol ar ymchwil i grwpiau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae gwybodaeth o'r math hwn yn allweddol i fapio effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae ein casgliadau gwyddorau naturiol yn cynnwys dros bum miliwn o wrthrychau, sy'n adnodd gwerthfawr ar gyfer gwyddoniaeth ym maes newid yn yr hinsawdd.

Mae ein casgliadau hanes cymdeithasol hefyd yn tynnu sylw at ran Cymru yn y chwyldro diwydiannol; mae Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn enwedig yn datgelu sut mae'r ras am danwyddau ffosil a gwell rhwydweithiau trafnidiaeth wedi cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Yn 2018 roedd yr ymyriad 'No Môr Plastics', a gyd-gynhyrchwyd gyda'n fforwm ieuenctid, yn tynnu sylw at y broblem fyd-eang o lygredd plastig, a hynny drwy orchuddio ein harddangosiadau natur â phlastig a gasglwyd o draethau, gan sbarduno trafodaethau am blastigau untro.

Yn 2019, i gyd-fynd â thaith Dippy y Diplodocws ledled y DU, fe wnaethom ni gynnal Byd Natur Dippy, gan greu arddangosfa am ffasiwn gyflym a'r argyfwng hinsawdd. Cafodd yr holl arddangosfeydd eu gwneud gyda chadachau a dillad a oedd yn mynd i gael eu gwaredu.

Fe wnaethom ni weithio gyda Cynnal Cymru ym mis Mawrth 2019 i gynnal brecwast rhwydweithio yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gyda Dave Coleman, rheolwr Gyfarwyddwr y Project Llythrennedd Carbon. Dyma oedd ein cam cyntaf ar ein taith hyfforddiant llythrennedd carbon.

Ym mis Medi 2019, fe wnaethom ni groesawu streicwyr newid hinsawdd i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Daeth niferoedd enfawr at ei gilydd i brotestio, a buom yn gweithio gyda grwpiau ieuenctid i gyflwyno negeseuon ar draws ein horielau. Roedd y streiciau hinsawdd yn newid enfawr i'r sefydliad ac fe wnaethant ein hysbrydoli i ddatgan argyfwng ecolegol a hinsawdd byd-eang.

Drwy gydol 2019, buom yn gweithio gyda Amgueddfa Manceinion a Museum Development North West, a'n helpodd i ddatblygu ein rhaglen Llythrennedd Carbon. Cafodd ein hyfforddiant wyneb yn wyneb ei achredu ym mis Ebrill 2020, ond cyn pen dim cafodd ei symud ar-lein yn ystod pandemig. Mae'r cwrs digidol yma wedi ein helpu i ddarparu hyfforddiant yn effeithiol, ar y cyd ac yn gynaliadwy i dros 300 o bobl ar draws y sefydliad. Erbyn hyn, mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnig ar ein llwyfan hyfforddiant mewnol, sy'n golygu ei fod yr un mor brif ffrwd â chyrsiau eraill i staff.

Ar ben hynny, rydym wedi gweithio gyda'r Project Llythrennedd Carbon i greu tystysgrifau dwyieithog a ffurflenni addewid. Roedden ni'n falch iawn o gael achrediad efydd ym mis Hydref 2021.

Rydyn ni wedi parhau i gysoni ein rhaglen ddigwyddiadau â'n taith llythrennedd carbon, gyda dangosiadau "Sgwrs gyda..." o'r ffilm 2040 ochr yn ochr ag arddangosfa Ffotograffydd Bywyd Gwyllt y Flwyddyn 2022.

Erbyn hyn, rydyn ni'n rhannu ein profiadau â sefydliadau eraill sydd eisiau cael eu hachredu. Ym mis Tachwedd 2022 fe wnaethom ni gynnal sesiynau blasu ar gyfer sefydliadau tebyg i gyd-fynd â Diwrnod Gweithredu Llythrennedd Carbon.

Roedden ni'n falch iawn o gael achrediad lefel arian ym mis Mawrth 2023.